CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

IONAWR 2024




## ANGYLION TÂN YR ANTARCTIG
TUDALEN 3





## EUROS EDWARDS YN DERBYN MEDAL YR YMERODRAETH BRYDEINIG
TUDALEN 8

ADRAN NEWYDD: CWRDD A'R TÎM
TUDALEN 4

NEWYDDION Y GORSAFOEDD
TUDALEN 10

SGRINIO IECHYD YN Y GWASANAETH
TUDALEN 19

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| ANGYLION TÂN YR ANTARCTIG | 4 |
| CWRDD A'R TÎM - CCBD, Y PENCADLYS | 6 |
| NEWYDDION STAFF - EUROS EDWARDS | 8 |
| HYFFORDDIANT | 9 |
| NEWYDDION Y GORSAFOEDD | 10 |
| OPERATION FLORIAN | 12 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 13 |
| SWYDDI | 16 |
| CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL | 18 |
| SGRINIO IECHYD | 19 |


**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

**Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:**

**1597** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli

**745** Digwyddiadau a fynychwyd

**48** O danau mewn adeiladau

**379** O alwadau ffug

**4** Anifail wedi'u Hachub

**4** O ddigwyddiadau achub dwr

**40** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**42** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill





# ANGYLION TÂN YR ANTARCTIG YN CWBLHAU EU HANTUR RYFEDDOL

**Mae'r diffoddwyr tân Rebecca Openshaw-Rowe o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Georgina Gilbert o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cwblhau eu hantur ryfeddol i'r Antarctig.**

Cychwynnodd Rebecca a Georgina – neu Angylion Tân yr Antarctig, fel maen nhw'n cael eu hadnabod – ar eu hantur ar ddechrau Tachwedd 2023 gan gyrraedd pen eu taith ar Ionawr 12 2024. Maen nhw wedi cerdded a sgïo dros 1,200km mewn 52 diwrnod, o arfordir Antarctica i Begwn y De – sy'n cyfateb i 29 marathon!

Angylion Tân yr Antarctig yw'r bobl gyntaf erioed i gwblhau'r llwybr yr oedden nhw wedi'i ddewis ac nid oedd unrhyw un yn eu tywys na'u cynorthwyo wrth iddyn nhw dynnu eu cyflenwadau eu hunain a'u slediau offer – pob un yn pwyso dros 100kg. Yn ogystal â chwmpasu'r pellter anhygoel hwn, maen nhw wedi gorfod dioddef amodau eithafol y lle oeraf ar y Ddaear – gyda'r tymheredd yn cyrraedd mor isel â -30°C a chyflymder gwynt o hyd at 60mya.

Cymerodd eu hantur dros bedair blynedd o gynllunio a hyfforddi gofalus, ac un o'r prif nodau oedd herio stereoteipiau rhywedd ac ysbrydoli cenedlaethau o fenywod yn y dyfodol.

Mae Rebecca a Georgina yn fodelau rôl gwych i fenywod a merched ddilyn gyrfa ym mha bynnag faes y maen nhw'n ei ddewis ac maen nhw wedi rhoi cyngor a chymorth i fenywod sy'n mynd drwy'r broses recriwtio diffoddwyr tân.

Mae Angylion Tân yr Antarctig hefyd wedi bod yn codi arian pwysig ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân – sy'n rhoi cymorth gydol oes i aelodau gwasanaethau tân ac achub y DU sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol - ac mae eu Tudalen JustGiving yn dal i dderbyn rhoddion.

Gallwch edrych yn ôl ar daith Angylion Tân yr Antarctig drwy dudalen olrhain eu taith, sy'n rhoi trosolwg o'u llwybr i Begwn y De ynghyd â blogiau fideo a recordiwyd ganddyn nhw ar hyd y ffordd.
Mae pawb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llongyfarch Rebecca a Georgina ar eu llwyddiant anhygoel.






# Cwrdd a'r Tîm

**Bydd yr adran ddiweddaraf hon o'n cylchgrawn Calon Tân yn tynnu sylw at adran wahanol, anweithredol, er mwyn i chi ddod i adnabod pwy sy'n helpu i gadw GTACGC i redeg**

## GWYNEBAU'R GWASANAETH: TÎM CYFATHREBU CORFFORAETHOL A DATBLYGU BUSNES

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n (GTACGC) cyflogi dros 1,300 aelod o staff sy'n darparu ymateb brys, gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal a diogelu a mwy i tua 12,000 cilomedr sgwâr – bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

Yn y rhifyn hwn, rydym yn cwrdd â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCDB), sydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin.

Mae'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn gyfrifol am gyfathrebu mewnol ac allanol, dylunio graffig, rheoli gwefan y Gwasanaeth yn ogystal â rheoli gwaith yr Awdurdod Tân a chynorthwyo'r aelodau etholedig.



### Aled Lewis
**Pennaeth Dros Dro yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes**

Helo, Aled ydw i, a fi yw Pennaeth dros dro yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes.


Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod gennym bortffolio eang o waith yn yr adran sy'n tueddu i gynnwys y rhan fwyaf o agweddau ar y Gwasanaeth. Ond mae gennym dîm gwych o arbenigwyr pwnc sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith yn broffesiynol a llwyddiannus.

Mae bod yn gyfrifol am dîm bach ond hynod effeithiol yn werth chweil ac yn heriol ar yr un pryd ac yng nghyd-destun yr amgylchedd deinamig y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, nid wyf yn amau y byddwn yn wynebu llawer o heriau yn 2024 a fydd yn golygu bod angen i ni feddwl yn arloesol a gwella'r ffordd y mae'r adran yn darparu gwasanaethau.

Rydym bob amser â diddordeb mewn ymwneud â chi, felly rwy'n eich annog i gysylltu â ni i ddarganfod mwy am sut y gallwn eich cefnogi.









### Linsey Perry
**Rheolwr y Wasg a Chyfathrebu Dros Dro**

Linsey ydw i, ac rydw i wedi gweithio i'r Gwasanaeth am saith mlynedd. Yn fy rôl bresennol fel Rheolwr y Wasg a Chyfathrebu rwy'n cael gweithio gydag amrywiaeth o adrannau a gorsafoedd ar draws y Gwasanaeth ac a bod yn onest does dim unrhyw ddau ddiwrnod yr un fath! Y tu allan i'r gwaith, mae bywyd teuluol yn brysur ac mae llawer o'm 'hamser sbâr' yn cael ei dreulio'n gyrru fy mhlant, sydd yn eu harddegau, ar hyd y lle i'w gweithgareddau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd. Pan fydd amser yn caniatáu, rwy'n mwynhau teithio, mynd i'r sinema, ac ambell gêm o Scrabble



### Dafydd Jones
**Rheolwr Dylunio Graffeg a Gwefannau**



Shwmai, Dafydd ydw i, a fy rôl o fewn CCDB yw Rheolwr Dylunio Graffeg a Gwefannau. Ymunais â'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2022, ac rwyf wir yn mwynhau fy ngwaith yma. Pan nad ydw i yn y swyddfa'n gwneud y te (gorau) i bawb, rwy'n treulio fy amser yn tacluso ar ôl fy merched, cyflawni rhestr DIY fy mhartner a cherdded y cŵn. Fy mhrif ddiddordebau yw cerddoriaeth a phêl-droed. Dwi'n chwarae drymiau a gitâr, felly os oes rhywun eisiau dechrau band o fewn y Gwasanaeth, rhowch wybod! Rwy'n chwarae o bryd i'w gilydd i ail dîm Clwb Pêl-droed Llanboidy.



### Angharad Hawkes
**Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

Helo, Angharad ydw i, a fy rôl o fewn CCDB yw'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. Ymunais â'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2022. Fy rôl i yw helpu i reoli proses yr Awdurdod Tân o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys cefnogi ein 25 Aelod (Cynghorwyr). Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar bob un ohonom yn cael eu gwneud yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chyfansoddiad yr Awdurdod ac yn sicrhau bod gan bob Aelod yr wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau.





## Rachel Kestin
**Swyddog Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymgynghori**



Rachel ydw i ac rydw i wedi gweithio i'r Gwasanaeth ers mis Awst 2022. Fi yw'r Swyddog Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymgynghori ac rwy'n un o bedwar aelod y tîm cyfathrebu. Rwy'n gweithio'n agos gydag adrannau eraill wrth rannu'r holl ymgyrchoedd diogelwch diweddaraf yn ogystal â bod yn gynrychiolydd cyfathrebu ar gyfer Rhanbarth y Gorllewin. Rwy'n briod â Ross, ac mae gennym ddwy ferch yn eu harddegau a mab dwy flwydd oed direidus sy'n ein cadw'n brysur! Mae gan fy ngŵr a minnau ddiddordeb eithaf anarferol – rydym yn hoff iawn o hel ysbrydion! Ond dydyn ni ddim yn rhyfedd... wir i chi!



## Steffan John
**Swyddog Cyfathrebu**




Shwmae, Steffan ydw i a fi yw'r Swyddog Cyfathrebu yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ymunais â'r Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2022 ac fel rhan o'm rôl rwy'n ysgrifennu amrywiaeth o ddatganiadau i'r wasg a straeon newyddion. Rwy'n cael cwrdd â phobl wahanol o bob rhan o ardal y Gwasanaeth a fi yw cynrychiolydd cyfathrebu Rhanbarth y Gogledd. Cefais fy ngeni yng Nghwm Gwendraeth a thu allan i'r gwaith rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy nheulu a mynd hwnt ac yma gyda fy nghamera analog.

## Lily Evans
**Swyddog Marchnata Digidol Dros Dro**



Lily ydw i a dwi newydd ddechrau gweithio i'r Gwasanaeth y mis hwn. Fi yw'r Swyddog Marchnata Digidol newydd yn y tîm Cyfathrebu felly byddaf yn gweithio'n bennaf ar ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â bod yn gynrychiolydd cyfathrebu ar gyfer Rhanbarth y De. Rwy'n dod yn wreiddiol o'r Canolbarth ond symudais i Sir Benfro ddwy flynedd yn ôl lle rwy'n byw gyda fy mhartner Dan. Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser sbâr ar y traeth neu'n gwneud TikToks o fy nghi Bruce!





## Courtney Price
**Dylunydd Graffeg a We Cynorthwyol**



Helo, Courtney ydw i a fi yw'r Cynorthwyydd Dylunio Graffeg a Gwefannau yn y tîm CCDB. Ymunais â'r Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2022 a'm rôl yw gwneud i bopeth edrych yn bert gan ddefnyddio'r brand bob amser! Fy hoff ran o'm swydd yw gallu mynychu digwyddiadau a gweld fy holl ddyluniadau yn dod yn fyw. Pan nad ydw i'n dylunio, rwy'n mwynhau ticio llefydd oddi ar fy rhestr deithio a threulio amser gyda fy ffrindiau a'm teulu.



## Llew Davies
**Swyddog y Gymraeg**



Shwd mae! Llew ydw i a dwi newydd ddechrau yn fy rôl fel Swyddog y Gymraeg ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan weithio dau ddiwrnod yr wythnos. Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod yr awdurdod tân yn gweithio yn unol â Safonau'r Gymraeg a nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ar wahân i'r rôl hon, rwy'n ganwr/cyfansoddwr caneuon, actor ac yn bwysicaf oll (mae'n ymddangos) yn fwtler llawn-amser ar gyfer fy mhlant!

## CYSYLLTWCH A CCBD AM

- **Ymholiadau'r wasg**
- **Dylunio Graffig ac Argraffu**
- **Gwefan**
- **Cyngor ac arweiniad ar y Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Safonau'r Gymraeg**
- **Canllawiau Brand Gweledol**
- **Cyfathrebu Mewnol**
- **Cyfathrebu Allanol**
- **Ymgysylltu â'r Awdurdod Tân ac Aelodau**
- **Digwyddiadau (ar draws y gwasanaeth)**
- **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI)**
- **Ffotograffiaeth**
- **Canllawiau ynghylch llywodraethu da a gwneud penderfyniadau**

**Gallwch gysylltu â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes drwy e-bostio pressofficer@mawwfire.gov.uk.**

NEWYDDION STAFF

# EUROS EDWARDS YN DERBYN MEDAL YR YMERODRAETH BRYDEINIG



**Mae'r Rheolwr Gwylfa Euros Edwards, o Orsaf Dân Crymych, am dderbyn Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) fel rhan o Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2024.**

Mae Euros wedi gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ffyddlon ers dros 44 mlynedd ac mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gynnal lefelau uchel o argaeledd yng Ngorsaf Dân Crymych yn ystod y cyfnod hwn.

Ym 1998, bu'n allweddol wrth gyflwyno cynllun Cyd-Ymatebydd gwirfoddol i Grymych, sef menter sydd wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'r gwasanaeth ambiwlans lleol ac sydd wedi achub llawer o fywydau yng nghymunedau gogledd Sir Benfro.

ERTHYGL LLAWN



HYFFORDDIANT

# GWIRFODDOLWYR GTACGC YN CYNORTHWYO GYDA HYFFORDDIANT.

**Ddydd Sadwrn, 13eg Ionawr, ymunodd gwirfoddolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ag aelodau o'n criw yn ystod penwythnos hyfforddi FIBUA (Fighting in Built Up Areas).**

Mae'r penwythnos hyfforddi, sy'n cael ei drefnu ar gyfer personél gweithredol, yn defnyddio maes hyfforddi milwrol pwrpasol o'r enw FIBUA. Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i senarios hyfforddi realistig ddigwydd gan gynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, tân mewn eiddo, gweithio ar uchder, HAZMAT, dal yn gaeth a llawer mwy.

Daeth ein gwirfoddolwyr yn actorion mewn senario bywyd go iawn dros y penwythnos, gan chwarae amrywiaeth o rolau gwahanol gan gynnwys dioddefwyr, anafusion, ac aelodau o'r cyhoedd oedd yn amharod eu cymwynas, i enwi rhai. Daeth eu mewnbwn ag elfen realistig i'r hyfforddiant, gan alluogi ein criwiau, swyddogion, a rheolwyr iau i ddatblygu ymhellach mewn amgylchedd dysgu ymarferol.

Diolch i'r holl wirfoddolwyr a gymerodd ran.










# OFFER LLIFOGYDD AC ACHUB DŴR NEWYDD.





**Yn dilyn buddsoddiad diweddar yn ein gallu ymateb dŵr, gwahoddodd Rhanbarth y De Gynghorwyr lleol ac aelodau'r Awdurdod Tân i fynychu Gorsafoedd Tân Gorseinon a Phort Talbot, i weld arddangosiadau o'n hoffer gallu ymateb dŵr newydd..**

Gan fod y gorsafoedd hyn wedi cwblhau eu hyfforddiant ymatebwyr cyntaf dŵr, rydym bellach mewn gwell sefyllfa i ddarparu ymateb cyflym ac effeithlon i'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau dŵr rydym yn delio â nhw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Gwnaeth yr offer argraff ar bawb a fynychodd a chytunwyd y byddai'n rhan hanfodol o'n gallu wrth ystyried digwyddiadau tywydd diweddar ac yn y dyfodol.

Dywedodd Pennaeth Rhanbarth y De, Steve Davies:

***"Rwy'n siŵr y bydd y gorsafoedd newydd yn chwarae rhan allweddol wrth gadw ein cymunedau'n fwy diogel gan adeiladu ar ein hymateb dŵr a'n gwytnwch o fewn y rhanbarth a'n galluogi i sicrhau mwy o ddiogelwch gyda gallu gweithredu ein criwiau tân."***



# GORSAF DÂN CAERFYRDDIN YN CODI ARIAN



**Yn ddiweddar, bu criw Gorsaf Dân Caerfyrddin yn codi arian ar gyfer achosion teilwng.**

Ddydd Gwener, Rhagfyr 15fed a dydd Sadwrn, Rhagfyr 16eg, bu criw Gorsaf Dân Caerfyrddin yng nghanol tref Caerfyrddin i godi arian ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân ac Adran Anghenion Arbennig Ysgol Myrddin.  Manteisiodd y criw ar y cyfle hefyd i rannu gwybodaeth a chyngor diogelwch tân pwysig.

Dros y ddau ddiwrnod, cododd aelodau'r criw £1,600! Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a rhoddion caredig.

# CASGLIAD ANRHEGION AR GYFER WARD PLANT YSBYTY



**Bu criw Gorsaf Dân Caerfyrddin yn trefnu eu casgliad anrhegion Nadolig blynyddol eto eleni, ar gyfer Ward Plant Cilgerran yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili.**

Ddydd Mercher, Rhagfyr 20fed, gwnaeth y criw, gydag aelodau'r tîm Diogelwch Cymunedol, ymweld ag Ward Cilgerran er mwyn rhoi'r anrhegion a roddwyd yn hael gan fusnesau lleol ac aelodau o staff y Gwasanaeth.

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a rhoddion caredig!

OPERATION FLORIAN

# RHOI CIT DIFFODD TÂN I YNYSOEDD PHILIPPINES

**Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi rhoi oddeutu 4,500 o eitemau o offer diffodd tân nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach i ddiffoddwyr tân yn ninas Manila yn Ynysoedd Philippines, trwy Operation Florian.**

Mae Operation Florian wedi cael ei enwi ar ôl Sant Florian, nawddsant y diffoddwyr tân, ac fe'i sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ym 1995. Mae'r elusen yn hyrwyddo amddiffyn bywyd ledled y byd trwy ddarparu offer a hyfforddiant i wella galluoedd diffodd tân, cymorth cyntaf ac achub.

Ddydd Iau, 7 Rhagfyr, ymwelodd aelodau tîm Operation Florian â Chanolfan Hyfforddi Tân Earlswood GTACGC i dderbyn rhodd o ddillad diffodd tân nad yw aelodau criwiau'r Gwasanaeth yn eu gwisgo mwyach. Llenwodd GTACGC ac aelodau tîm Operation Florian gynhwysydd cludo 40 troedfedd cyfan gyda thua 4,500 o eitemau o offer, gan gynnwys tiwnigau, legings, cyflau fflach a helmedau.

Dywedodd y Cydlynydd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), Nick McAllister, a oedd yn gyfrifol am drefnu'r rhodd ar ran GTACGC:

*"Trwy weithio gyda'r tîm yn Operation Florian, rydym wedi gallu ailgylchu ein hen Gyfarpar Diogelu Personol strwythurol, a fydd nid yn unig yn lleihau ein heffaith amgylcheddol, ond a fydd hefyd yn sicrhau y bydd yn parhau i wneud gwahaniaeth i'r diffoddwyr tân ac, yn y pen draw, i bobl Ynysoedd Philippines."*





ERTHYGL LLAWN



GTACGC
MAWWFRS
CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU
SPORTS & SOCIAL CLUB

Dewch i ymuno HEDDIW
Become a member TODAY

I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost

For further information regarding the Sports & Social Club, please contact

Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and retired members of the Service.

CHWARAEON A CHYMDEITHASU

# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI ROUNDERS

CLWB CRICED CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO BOWLS CLUB

CLWB BEICIO CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON TRIATHLON CLUB

CLWB TRAWSFFIT CROSSFIT CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



# NODWEDD FISOL AR ADRAN CHWARAEON A CHYMDEITHASOL - FFOCWS AR ROWNDERI!

**Rydym am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am bob adran o'n Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, felly gadewch i ni edrych yn fanylach!**

Yr adran dan sylw'r mis hwn yw... Rownderi!

Mae Jenny Clarke a Jay Crouch yn gyd-gapteiniaid yr adran Rownderi – Flaming Fierce, a sefydlwyd ym mis Chwefror 2023 ac sydd wedi bod yn ffynnu ers hynny.

Mae gan y tîm dros 30 o chwaraewyr o bob rhan o'r Gwasanaeth mewn amrywiaeth o wahanol adrannau, gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Diogelwch Tân Busnesau, Rheoli Tân, Pencadlys y Gwasanaeth a Staff Gweithredol.

Yn ystod misoedd y Gaeaf mae'r tîm yn hyfforddi mewn canolfannau chwaraeon ond yn ystod yr Haf maent yn hyfforddi gyda'r nos ac ar benwythnosau mewn parciau lleol ar draws Abertawe a Chastell-nedd. Mae tîm Rownderi'r Gwasanaeth yn annog teuluoedd i gymryd rhan, ac mae plant yr aelodau yn aml yn mynychu'r sesiynau hyfforddi, sydd fel arfer yn gorffen gyda phicnic grŵp, pysgod a sglodion neu hufen iâ! Mae'n ddigwyddiad cymdeithasol iawn felly!

Bob dydd Sul mae'r tîm yn cystadlu yng nghynghrair gymysg **My Rounders** ym Mhort Talbot yn erbyn gwahanol sefydliadau. Mae'r capteiniaid Rownderi yn canolbwyntio'n gryf ar les ac yn ymdrechu i gynnal cysylltiad cryf ar draws y tîm trwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol, fel penwythnosau gwersylla a digwyddiadau cymdeithasol, sy'n cryfhau perthnasoedd ar y cae ac oddi arno.

Os hoffech ymuno â'r tîm bywiog hwn, cysylltwch â Jenny Clark **jenny.clarke@mawwfire.gov.uk**

ROWNDERI ROUNDERS



# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL**











**AR ALWAD**
Recriwtio Diffoddwyr Tân
**ON CALL**
Firefighter Recruitment

# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?

Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!



# LLUNIO'R DYFODOL: RHANNWCH EICH LLAIS YN EIN CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

**Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym wedi ymrwymo i greu dyfodol cynhwysol a theg, a chredwn fod eich mewnbwn yn hanfodol. Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder a chydweithio cymunedol, rydym yn eich gwahodd i gyfrannu at ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.**

**Beth yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?**
Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn fap ffordd sy'n llywio ein hymdrechion i feithrin amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'n weledigaeth ar y cyd wedi'i llunio gan leisiau ein cymuned, ac mae eich mewnbwn yn chwarae rhan ganolog yn ei datblygiad.

**Pam mae eich Mewnbwn yn Bwysig:**
Mae eich profiadau, eich safbwyntiau a'ch syniadau yn amhrisiadwy. Drwy rannu eich meddyliau, rydych yn ein helpu i ddeall anghenion unigryw ein cymuned amrywiol, gan sicrhau bod ein mentrau yn adlewyrchu cyfoeth ein hunaniaeth gyfun.

**Sut Gallwch Chi Gymryd Rhan:**
Cwblhau'r Arolwg: Cymerwch ychydig funudau i lenwi arolwg ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd eich ymatebion yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein strategaethau a'n mentrau.

Lledaenwch y Gair: Anogwch eich ffrindiau, eich teulu a'ch cymdogion i gymryd rhan. Po fwyaf o leisiau amrywiol a glywn ni, y cryfaf fydd ein cynllun.

**Gyda'n Gilydd, Gadewch i ni Greu Yfory sy'n Fwy Cynhwysol:**
Mae eich cyfranogiad yn hanfodol wrth lunio dyfodol lle mae pawb yn cael eu clywed, eu parchu, a'u cynnwys. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n adlewyrchu ein cymuned, ac mae eich mewnbwn yn sicrhau bod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn adlewyrchiad cywir o'n dyheadau cyffredin.

Diolch am fod yn rhan hanfodol o daith Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru tuag at ddyfodol mwy cynhwysol.

**CWBLHEWCH YR AROLWG**

Dyddiad cau 16/02/2024











# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CYMRYD RHAN YNG NGHOFRESTRFA CANSER A CHLEFYDAU DIFFODDWYR TÂN YN Y DU

**Er mwyn cefnogi a chynorthwyo gydag astudiaeth ymchwil sy'n cael ei chynnal gan Brifysgol Canol Sir Gaerhirfryn (UCLan), yn ddiweddar gwirfoddolodd dros 100 o ddiffoddwyr tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol i gymryd rhan mewn sesiynau sgrinio iechyd.**

Dan arweiniad yr Athro mewn Cemeg Tân a Gwenwyndra, Anna Stec, mae Cofrestrfa Canser a Chlefydau Diffoddwyr Tân yn y DU (FCDR) UCLan yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r achosion cynyddol o ganserau a chlefydau ymhlith diffoddwyr tân ac i ganfod y cysylltiad rhwng galwedigaeth diffoddwr tân a dod i gysylltiad ag elifion a gweddillion tân.

**ERTHYGL LLAWN**







Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

www.tancgc.gov.uk